# JOB PACK
# BREAKING THE BOX

**Job Title**: Project Coordinator

**What is Breaking the Box?**

We need more Deaf, disabled, and neurodiverse creatives bringing their talents and skills into theatre in Wales. Not just on stage, but backstage, across producing and arts management too. To make this happen we need an informed and aware theatre and arts sector, with its working cultures and environments ready to support everyone to do their best work.

Breaking the Box (BTB) is a connected and committed consortium of partners. Together we are testing and learning new ways of working together. Through this, we model how to create opportunities and the changes needed to make the arts a more viable place of work for everyone.

In its initial phase, BTB established a network of Welsh venues that are accessible and welcoming to staff, creatives and audiences. It placed strong emphasis on fostering a culture of inclusivity and embracing accessibility as a core value. It also sought to address the under-representation of Deaf and disabled backstage creatives in the sector, through career development opportunities. We worked with 6 Early Career Creatives (ECCs), to explore the different backstage skills and disciplines open to them. So far, the project has seen enhanced levels of awareness, improved accessibility and stronger relationships fostered with Deaf, disabled and neurodivergent creatives and communities.

As we enter our second phase, we're looking for a new member of the team to join us on the journey. This person will work with us to coordinate the experience of a new cohort of creatives, connecting and holding relationships between our project partners across its 16 month timeframe.

**What is the purpose of the Project Coordinator?**

Disability Arts Cymru A work of art Creu celf
Taking Flight
hynt
ffwrnes
Pontio
Y Parc a'r Dâr Park & Dare Theatre
awen Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

The Project Coordinator will work in close collaboration with the core BTB partners, to coordinate the operation of the Breaking the Box programme.

The Coordinator will assist in the recruitment and ongoing support of two 'Changemaker' roles: a new aspect of Breaking the Box which will place two Deaf, disabled or neurodiverse individuals (creatives or those with an interest in arts engagement) in-house in our partner venues.  These roles will be tasked with representing the values and ambitions of BTB, building relationships internally with staff, and externally with local communities and audiences.

The Project Coordinator will play a key role in the recruitment and induction of a new cohort of Early Careers Creatives (ECCs), in collaboration with the newly appointed Changemakers. They will coordinate all the ECC placements and workshops across the duration of the project, acting as a central liaison point and providing mentoring and support to the individual ECCs.

The Coordinator will also serve as the primary point of contact between venues, ECCs, and project partners, ensuring effective communication and collaboration among all stakeholders.

**Who we think you might be.**

This is an exciting role for someone with a passion for inclusivity and making change.  Someone who is driven by an interest in people and creativity; connecting with a wide range of individuals from different backgrounds and lived experiences, and bringing people together to build strong and creatively rich relationships.

You are likely to be empathetic, able to understand the different needs of individuals and their motivations and approaches to work.  As part of this, you'll get a buzz out of coordinating groups of people and activity to achieve the best and most meaningful outcomes.  You'll have strong organisational skills and be well-versed in creating processes that enable you to keep on track of activity.

You'll also have the communications skills and systems to keep a wide range of people up to speed and well-informed.

---

**JOB DESCRIPTION**
**PROJECT COORDINATOR - BREAKING THE BOX**

Breaking the Box is a complex and far reaching project involving many partners. Because of this, communication, collaboration and cooperation are at the heart of achieving what we've set out to do. We are looking for someone with a passion for inclusivity and making change.  Someone who will reflect the project's core values of openness, authenticity, solidarity, realism, and legacy.

The Project Coordinator will lead in the recruitment and management of two Deaf, disabled or Neurodiverse Changemakers, supporting them to embed into their assigned partner venues.

They will be responsible for the recruitment of a new cohort of Deaf, disabled or Neurodiverse Early Career Creatives.  They will contribute to the design of a programme of masterclasses and placements in collaboration with the BTB partners, and take responsibility for its smooth roll out, ensuring the best experience for all involved.  As the project develops we anticipate that the Project Coordinator will play a key role in inputting into the design and management of a performance-based course for Early Career Performers (on-stage roles).

The Project Coordinator will play a key role in documenting the development of the project, working with an external evaluator to track and monitor the activity and impact of the project over the course of its lifecycle.

## KEY RESPONSIBILITIES

### Project Coordination & Administration

- Assist with the recruitment of two project Changemakers and the new Early Career Creatives cohort.
- Research, design and develop programme of masterclasses, workshops and placements for Early Career Creatives in collaboration with key project partners.
- Coordinate the scheduling, delivery and smooth running of programmes in collaboration with project partners. Undertake all operational and administrative duties relating to the workshops and ECC placements.
- To schedule, organise and lead regular partner reflection meetings.

### Support, Mentoring and Engagement

- Supporting and coordinating activity to meet the needs of the Changemakers, Early Career Creatives and any commissioned freelancers associated with the project, in collaboration with the project partners.
- Ongoing research and identification of Wales-based, UK or international training or mentoring opportunities that could link or contribute to the ECC programme.
- To advocate for Breaking the Box, across the partner group and wider arts and theatre sector, attending industry-related events as a representative for the project.
- Work closely with the project's external evaluator to gather, track and monitor project activity and data for the purposes of evaluation and communicating impact.

### Communications and relationship management

- Act as liaison between ECCs, project partners and venues, coordinating clear and consistent communication between all involved.
- Gathering a comprehensive understanding of the access requirements and mentoring preferences of each of the ECCs and Changemakers. Liaise with various partners to ensure access requirements are being met fully.
- Provide consistent and structured updates and feedback across the Breaking the Box project team and partners.
- Liaise with partner marketing and communications teams to ensure project visibility and to raise awareness of key stories of impact.

## PERSON SPECIFICATION

### Knowledge and Experience

- Lived experience of being Deaf, disabled or Neurodiverse.
- Knowledge of Welsh theatre or arts industry.
- Experience of working with artists, freelance creatives and arts organisations

### Essential Skills

- Strong organisational and administration skills - the ability to organise resources and processes, and to work within project goals, timescales, and budgets.
- The ability to create, coordinate, and nurture collaboration and partnerships.
- The ability to work flexibly and adaptably, and identify and understand needs, demands, and challenges.

### Desirable (not essential) Skills

Welsh Language
British Sign Language (BSL)

### Other Skills & Attributes

Wales-based

## SUMMARY OF TERMS

**PLACE OF WORK**: Across Wales

**Responsible to:** Elise Davison

**Supported by:** Megan Merrett

**Key point of contact**: Taking Flight Theatre

**Hours**: Approximately 85 days over 16 months.  1.5 days a week

**Salary** : £200 a day for a 7.5 hour day - £17,000 in total

**Travel**: Will be reimbursed on production of receipts

**HOW TO APPLY:**

Please submit a CV and accompanying cover letter (in video, audio or written format) to admin@takingflighttheatre.co.uk by **10TH JUNE 2024.** We welcome applications in BSL, Welsh or English.

**RECRUITMENT TIMELINE:**

**Application deadline: 10th June 2024**
**Interviews: week commencing 15th July 2024**
**Post commencing: September 2024**

**Pecyn Swydd**
**BREAKING THE BOX**

**Teitl Swydd: Cydlynydd Prosiect**

**Beth yw "Breaking the Box"?**

Mae arnom angen mwy o bobl greadigol Byddar, anabl a niwroamrywiol i ddod â’u doniau a’u sgiliau i'r theatr yng Nghymru. Nid yn unig ar y llwyfan, ond tu cefn llwyfan hefyd, ac ym meysydd cynhyrchu a rheoli'r celfyddydau hefyd. I hwyluso hyn mae angen sector theatr a chelfyddydau sydd yn wybodus ac yn ymwybodol, gyda diwylliannau ac amgylcheddau gwaith sydd yn barod i gefnogi pawb er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith gorau.

Mae Breaking the Box (BTB) yn gonsortiwm o bartneriaid cysylltiedig ag ymroddedig. Rydym yn profi ac yn dysgu ffyrdd newydd o gydweithio gyda'n gilydd. Drwy wneud hyn, rydym yn modelu sut i greu'r cyfleoedd a’r newidiadau sydd eu hangen arnom i greu gweithle mwy dichonadwy yn y celfyddydau i bawb.

Yn y dyddiau cynnar, sefydlodd BTB rwydwaith o ganolfannau yng Nghymru sy'n hygyrch ac yn groesawgar i staff, pobl greadigol a chynulleidfaoedd hefyd. Rhoddwyd pwyslais cryf ar feithrin diwylliant o gynhwysiant ac o groesawu hygyrchedd fel gwerth craidd. Ceisiwyd fynd i’r afael hefyd â’r tangynrychiolaeth yn y sector o bobl greadigol Fyddar ac anabl tu cefn llwyfan, trwy gynnig cyfleoedd datblygu gyrfa. Buom yn gweithio gyda 6 Unigolyn Creadigol Gyrfa Gynnar (UCGG), yn archwilio’r gwahanol sgiliau a disgyblaethau cefn llwyfan oedd ar gael iddynt. Hyd yma mae’r prosiect wedi gweld cynnydd mewn ymwybyddiaeth, gwell hygyrchedd, a pherthnasoedd cryfach yn cael eu meithrin gyda phobl greadigol a chymunedau Byddar, anabl a niwroddargyfeiriol.

Wrth ddechrau ar yr ail gyfnod, rydym yn chwilio am aelod newydd o’r tîm i ymuno ar y daith - person fydd yn gweithio gyda ni i gydlynu profiad carfan

Disability Arts Cymru
Taking Flight
hynt
ffwrnes
Pontio
Theatr Y Parc a'r Dâr / Park & Dare Theatre
awen Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Ariennir gan y Loteri / Lottery Funded
Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government

newydd o bobl greadigol, gan gysylltu a chynnal perthnasoedd rhwng ein holl partneriaid prosiect drwy gydol yr amserlen o 16 mis.

**Beth yw pwrpas y Cydlynydd Prosiect?**

Bydd y Cydlynydd Prosiect yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid craidd BTB, i gydlynu gweithrediad y rhaglen Breaking the Box.

Bydd y Cydlynydd yn cynorthwyo'r recriwtio a'r gefnogaeth barhaus i ddwy rôl 'Gwneuthurwyr Newid': agwedd newydd ar Breaking The Box a fydd yn gosod dau ~~o~~ unigolyn Byddar, anabl neu niwroamrywiol (unigolion creadigol neu sydd â diddordeb mewn ymgysylltu â'r celfyddydau) yn fewnol yn ein canolfannau partner. Cyfrifoldebau yr unigolion yma fydd cynrychioli gwerthoedd ac uchelgeisiau BTB, meithrin perthnasoedd yn fewnol gyda'r staff a hefyd yn allanol gyda chymunedau a chynulleidfaoedd lleol.

Bydd y Cydlynydd Prosiect yn chwarae rhan allweddol yn y broses o recriwtio ac anwytho carfan newydd o Unigolion Creadigol Gyrfa Gynnar (UCGG), mewn cydweithrediad â'r 'Gwneuthurwyr Newid' yma fydd newydd gael eu penodi. Byddant yn cydlynu holl leoliadau a gweithdai'r UCGG yn ystod cyfnod y prosiect, gan weithredu fel pwynt cyswllt canolog yn ogystal â mentora a chefnogi'r UCGG.

Y Cydlynydd fydd y prif bwynt cyswllt hefyd rhwng y canolfannau, yr UCGG, a phartneriaid prosiect, yn sicrhau cyfathrebu a chydweithio effeithiol ymhlith yr holl randdeiliaid.

**Sut berson 'dyn ni'n meddwl y gallech chi fod.**

Dyma rôl gyffrous i rywun sydd yn angerddol am gynhwysiant a gwneud gwahaniaeth. Rhywun sy'n cael ei ysgogi gan ddiddordeb mewn pobl a chreadigrwydd, mewn cysylltu ag ystod eang o unigolion o wahanol gefndiroedd a phrofiadau byw, ac mewn dod â phobl ynghyd i feithrin perthnasoedd sy'n gryf ac yn llawn creadigrwydd cyfoethog.

Rydych yn debygol o fod yn empathetig, gyda'r gallu i ddeall gwahanol anghenion unigolion, eu cymhellion a'u hagweddau at waith. Fel rhan o hyn, byddwch yn cael eich gwefreiddio wrth gydlynu grwpiau o bobl a gweithgareddau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau, mwyaf ystyrlon. Byddwch yn meddu ar sgiliau trefnu cryf a byddwch yn hyddysg mewn creu prosesau fydd yn eich galluogi i gadw trefn ar weithgareddau. Bydd gennych hefyd y sgiliau a’r systemau cyfathrebu i sicrhau bod amrywiaeth eang o bobl yn hyddysg ac yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf.

---

**SWYDD DDISGRIFIAD**
**CYDLYNYDD PROSIECT - BREAKING THE BOX**

Mae Breaking the Box yn brosiect cymhleth a phellgyrhaeddol sy'n cynnwys llawer o bartneriaid. Oherwydd hyn, wrth wraidd cyflawni'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud y mae cyfathrebu, cydweithio a chydweithredu. Rydym yn chwilio am unigolyn sydd yn angerddol am gynhwysiant ac am gyflawni newid. Rhywun a fydd yn adlewyrchu gwerthoedd craidd y prosiect, sef bod yn agored, dilysrwydd, undod, realaeth, ac etifeddiaeth.

Bydd y Cydlynydd Prosiect yn arwain y gwaith o recriwtio a chefnogi dau Wneuthurwr Newid Byddar, anabl neu niwromrywiol, a'u cynorthwyo i wreiddio yn eu canolfannau partner penodedig.

Byddant yn gyfrifol am recriwtio carfan newydd o Unigolion Creadigol Gyrfa Gynnar Byddar, anabl neu niwroamrywiol. Byddant yn cyfrannu at ddylunio rhaglen o ddosbarthiadau meistr a lleoliadau ar y cyd â phartneriaid BTB, ac yn cymryd cyfrifoldeb am ei chyflwyno'n ddidrafferth, ac yn sicrhau'r profiad gorau i bawb sydd ynghlwm â'r gwaith. Wrth i'r prosiect ddatblygu rydym yn rhagweld y bydd y Cydlynydd Prosiect yn chwarae rhan allweddol wrth gyfrannu at ddylunio a rheoli cwrs perfformio ar gyfer Perfformwyr Gyrfa Gynnar (rolau ar y llwyfan).

Bydd y Cydlynydd Prosiect yn chwarae rhan allweddol wrth ddogfennu datblygiad y prosiect, gan weithio gydag arfarnwr allanol i olrhain a monitro gweithgaredd ac effaith y prosiect dros y cyfnod penodedig.

**CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL**

**Cydlynu a Gweinyddu Prosiectau**

- Cynorthwyo'r recriwtio o ddau Wneuthurwr Newid a'r garfan newydd o Unigolion Creadigol Gyrfa Gynnar
- Ymchwilio, dylunio a datblygu rhaglen o ddosbarthiadau meistr, gweithdai a lleoliadau ar gyfer yr Unigolion Creadigol Gyrfa Gynnar mewn cydweithrediad â

phartneriaid allweddol y prosiect.
● Cydlynu amserlennu, cyflwyno a rhedeg rhaglenni'n esmwyth mewn cydweithrediad â phartneriaid y prosiect. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau gweithredol a gweinyddol sy'n ymwneud â'r gweithdai a'r lleoliadau UCGG.
● Trefnu ac arwain cyfarfodydd myfyrio partneriaid yn rheolaidd.

**Cefnogaeth, Mentora ac Ymgysylltu**

● Cefnogi a chydlynu gweithgareddau i ddiwallu anghenion y Gwneuthurwyr Newid, yr Unigolion Creadigol Gyrfa Gynnar ac unrhyw weithwyr llawrydd eraill a gomisiynir sy'n gysylltiedig â'r prosiect, mewn cydweithrediad â phartneriaid y prosiect.
● Ymchwilio yn barhaus i gyfleoedd hyfforddi neu fentora yng Nghymru, y DU neu ryngwladol a allai gysylltu neu gyfrannu at y rhaglen yr UCGG.
● Siarad o blaid Breaking the Box ar draws y grŵp partner a'r sector celfyddydau a theatr ehangach, gan fynychu digwyddiadau sy'n ymwneud â'r diwydiant fel cynrychiolydd y prosiect.
● Gweithio'n agos gydag arfarnwr allanol y prosiect i gasglu, olrhain a monitro gweithgareddau a data'r prosiect at ddibenion gwerthuso a chyfathrebu effaith.

**Cyfathrebu a rheoli perthnasoedd**
● Gweithredu fel cyswllt rhwng yr UCGG, partneriaid y prosiect a'r lleoliadau, gan gydlynu cyfathrebu clir a chyson rhwng pawb sy'n ymwneud â'r gwaith.
● Casglu dealltwriaeth gynhwysfawr o ofynion mynediad a dewisiadau mentora pob un o'r UCGG a'r Gwneuthurwyr Newid. Cydgysylltu â phartneriaid amrywiol i sicrhau bod gofynion mynediad yn cael eu bodloni'n llawn.
● Darparu diweddariadau ac adborth cyson a strwythuredig i bawb yn y tîm prosiect Breaking the Box a'r partneriaid.
● Cydgysylltu â phartneriaid marchnata a chyfathrebu i sicrhau amlygrwydd y prosiect ac i godi ymwybyddiaeth o unrhyw straeon allweddol effeithiol.

**MANYLEB PERSON**

Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad byw o fod yn Fyddar, yn anabl neu'n niwroamrywiol.
- Gwybodaeth am ddiwydiant theatr neu gelfyddydol Cymru.
- Profiad o weithio gydag artistiaid, pobl greadigol llawrydd a sefydliadau celfyddydol

**Sgiliau Hanfodol**

- Sgiliau trefnu a gweinyddu cryf - y gallu i drefnu adnoddau a phrosesau, ac i weithio o fewn nodau prosiect, amserlenni a chyllidebau.
- Y gallu i greu, cydlynu a meithrin cydweithio a phartneriaethau.
- Y gallu i weithio'n hyblyg, a nodi a deall anghenion, gofynion a heriau.

**Sgiliau Dymunol (ddim yn hanfodol)**

Iaith Gymraeg

Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

**Sgiliau a Phriodoleddau Eraill**

Cartref yng Nghymru

**CRYNODEB TELERAU**

**LLEOLIAD GWAITH**: Ledled Cymru

**Yn atebol i**: Elise Davison

**Cefnogir gan**: Megan Merrett

**Pwynt cyswllt allweddol**: Taking Flight Theatre

**Oriau:** Tua 85 diwrnod dros 16 mis. 1.5 diwrnod yr wythnos

**Cyflog**: £200 y dydd am ddiwrnod 7.5 awr - cyfanswm o £17,000

**Teithio**: Yn cael ei ad-dalu pan gyflwynir derbynebau

**SUT I WNEUD CAIS:**

Cyflwynwch CV a llythyr eglurhaol (ar ffurf fideo, sain neu ysgrifenedig) i admin@takingflighttheatre.co.uk erbyn 10FED MEHEFIN 2024. Rydym yn croesawu ceisiadau yn BSL, Cymraeg neu Saesneg.

**LLINELL AMSER RECRIWTIO:**

**Dyddiad Cau Cais**: 10 Mehefin 2024
**Cyfweliadau**: yr wythnos yn dechrau y 15fed o Orffennaf 2024
**Swydd yn dechrau**: Medi 2024